# Cemlyn

Un o rwydwaith cenedlaethol gwarchodfeydd natur yr Ymddiriedolaethau Natur • One of a nationwide network of Wildlife Trust nature reserves



*Morwennol Bigddu // Sandwich Tern*

**Mae Cemlyn yn newid o hyd. Mae'r llanw'n symud y gro mân, ac felly hefyd ôl eich traed chi. Mae grymoedd naturiol, ynghyd â'r dreftadaeth o gyfraniad gan ddyn, wedi bod yn siapio'r tirlun trawiadol o'ch amgylch ers miloedd o flynyddoedd.**
**Mae'r nodweddion a'r bywyd gwyllt nodedig yn y fan hon yn dibynnu ar y newidiadau hyn. Maent ar y cyrion ac yn fwy gwerthfawr fyth oherwydd hyn.**

**Cemlyn is constantly changing. The tides move shingle, as will your footsteps. Natural forces, combined with the legacy of human involvement, have been shaping the spectacular landscape around you for millennia.**
**The distinctive features and wildlife here are dependent on these changes. They are on the edge and all the more valuable because of this.**

Mae'r esgair o ro mân ar dro, Esgair Cemlyn, yn gwahanu'r môr agored oddi wrth y lagŵn bâs, led hallt. Wedi'i haltro yn nramatig ar ôl storm enfawr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'r esgair yn parhau i symud i mewn at y tir a newid siâp, gyda phroffil gwahanol, wedi'i gerflunio gan y môr, yn ymddangos yn rheolaidd, yn enwedig wedi moroedd trwm.

Mae'r esgair yn lle garw i blanhigion, ond yn yr haf gallwch weld **Bresych y Môr** a **Betys y Môr** sy'n tyfu'n union allan o'r gro mân ac ar hyd llinell y marian. Yn y pridd tenau ar ben yr esgair, ceir clystyrau o **Ludlys Arfor, Clustog Fair a'r Pabi Corniog Melyn**.

Mae'r esgair yn gartref hefyd i adar yn magu. Mae'r **Cwtiad Torgoch a Phioden y Môr** ill dau'n nythu yng nghanol y cerrig mân ond mae'r ffaith bod lefel y môr yn codi'n golygu y bydd yr esgair yn debygol o gael ei rhannu ryw dro, ac felly bydd presenoldeb yr holl rywogaethau hyn dan fygythiad.

Y lagŵn yw'r ffocws ar gyfer yr olygfa fywyd gwyllt enwocaf yng Nghemlyn, sef y morwenoliaid yn ymgasglu yn yr haf. Mae'r **Morwenoliaid Cyffredin, Morwenoliaid y Gogledd a'r Morwenoliaid Pigddu** yn nythu ar yr ynysoedd. Mae'r warchodfa'n safle o bwysigrwydd cenedlaethol ar gyfer yr adar môr mudol, gosgeiddig hyn ac yn un o'r llefydd gorau yn y byd ar gyfer eu gweld yn agos.



*Bwrned Chwe Smotyn // Six-spot Burnet Moth*

Wedi adeiladu cored yn y 1930au, crëwyd y lagŵn allan o ardal o gors halen lanwol. Bellach mae'n gynefin diddorol gyda chyfrannau amrywiol o ddŵr halen a chroyw, ble mae creaduriaid arbenigol yn ffynnu. Y pysgodyn mawr fyddwch yn ei weld o bosibl fydd y **Mingrwn**. Yn ystod yr haf, rheolir lefel y lagŵn er budd y morwenoliaid sy'n magu yma ac yn y gaeaf gall amrywiaeth o adar rhydio a hwyaid fod yn bresennol.

Mae adar diddorol i'w gweld a'u clywed drwy gydol y flwyddyn yng Nghemlyn. Yn y caeau, y gwlybdir a'r prysgwydd o amgylch y warchodfa gallwch weld adar magu fel **Clochdar y Cerrig, y Llwydfron a Thelor yr Hesg** ond mae'r mannau hyn hefyd yn llefydd da i chwilio am adar mudol ac mae sawl aderyn prin wedi'i gofnodi yma. Mae pentir cyfagos Trwyn Cemlyn yn safle gwych i wylio'r môr ac mae llamhidyddion, morloi a dolffiniaid wedi'u gweld yn rheolaidd oddi yma, yn ogystal â llawer o adar môr.

The curving shingle ridge, Esgair Cemlyn, divides open sea from a shallow, brackish lagoon. Dramatically changed by a huge storm in the 19th Century, the ridge continues to inch inland and change shape, with a different sea-sculpted profile appearing regularly, especially following heavy seas.

The ridge is a harsh place for plants, but in summer you can see **Sea Kale** and **Sea Beet** growing out of the shingle and along the drift-line. In the thin soil of the ridge-top there are clumps of **Sea Campion, Thrift and Yellow-horned Poppy**.

The ridge is also home to breeding birds. **Ringed Plover and Oystercatcher** nest amongst the pebbles, although sea-level rise means that the ridge is likely to be breached sometime, making these species' presence vulnerable.

The lagoon is the focus of Cemlyn's most famous wildlife spectacle – its summer tern colony. **Common, Arctic and Sandwich Tern** nest on the islands.
The reserve is a nationally important site for these graceful, migratory seabirds and a great place to see them close-up.

Following the construction of a weir in the 1930s, the lagoon was created out of an area of tidal salt-marsh. It is now an interesting habitat, with varying proportions of salt and fresh water, in which specialised creatures thrive. The large fish you may see are **Grey Mullet**.
During the summer the level of the lagoon is managed for the benefit of the breeding terns, and in winter a variety of waders and ducks may be present.

There are interesting birds to see and hear throughout the year at Cemlyn. In the fields, wetland and scrub around the reserve you can see breeding **Stonechat, Whitethroat and Sedge Warbler,** but these are also good places to look for migrants, and several rarities have been recorded. The headland of Trwyn Cemlyn is a top sea-watching spot, with regular sightings of porpoises, seals and dolphins, as well as many seabirds.



*Pabi Corniog Melyn // Yellow Horned Poppy*



*Hwyaden Lygad Aur // Goldeneye*



*Morwennol Bigddu // Sandwich Tern*

200m

P

**Bryn Aber**

Man gwylio morwenoliaid
Tern viewing point

P

**Plas Cemlyn**

**Llwybr Arfordirol**
**Coastal Footpath**

**Rheolir Cemlyn gan yr Ymddiriedolaeth Natur fel gwarchodfa natur ac mae'n rhan o stad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Rhwng mis Mai a mis Awst, mae wardeniaid ar y safle 24 awr y dydd. Yn ogystal ag ateb eich cwestiynau, maent yn casglu data pwysig am fywyd gwyllt Cemlyn. Rhowch wybod am unrhyw broblemau iddynt neu'n uniongyrchol i'r Ymddiriedolaeth Natur ar 01248 351541.**

**Cemlyn is managed by the Wildlife Trust as a nature reserve and is part of a National Trust estate. From May to August wardens are on site 24hours a day. As well as answering your questions, they collect important data on Cemlyn's wildlife. Please report any problems to them, or direct to the Wildlife Trust on 01248 351541.**

THE NATIONAL TRUST

CAM+
Cyllun Arbrofol Môn
A Sustainable Development Fund for Anglesey

## Gwarchodfeydd ar Ynys Môn
## Reserves on Anglesey

**Cors Goch** (2)
Mosáig o wlybdir, rhostir a glaswelltir sy'n gartref i fywyd gwyllt prin a diddorol iawn
A mosaic of wetland, heath and grassland home to some rare and interesting wildlife

(3) **Mariandyrys**
Glaswelltir calchaidd yn gartref i flodau niferus
Calcareous grassland supporting many flowers

(1) **Porth Diana**
Rhostir, sy'n nodedig am ei gasgliad o'r Cor-rosyn Rhuddfannog
Heathland, notable for colony of Spotted Rock-rose

(4) **Nantporth**
Coetir arfordirol
Coastal woodland

(5) **Spinnies, Aberogwen**
Lle gwych i wylio adar
A great place for bird watching

**Mae taflenni ar gyfer y gwarchodfeydd hyn ar gael o Swyddfa Bangor.**
**Leaflets for these reserves are available from our Bangor Office.**

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn un o blith 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG ac yn un o blith y 6 Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, yn dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion.

Os hoffech helpu i gefnogi cadwraeth bywyd gwyllt drwy ddod yn aelod neu'n wirfoddolwr, neu os hoffech wybodaeth am warchodfeydd natur lleol, cysylltwch â:

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**
**376 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YE**
**Ffôn: 01248 351541**
**Ebost: nwwt@wildlifetrustswales.org**
Elusen Corfrestredig: 230772
Cwmni Cyfyngedig: 773995

**www.northwaleswildlifetrust.org.uk**

The North Wales Wildlife Trust is one of 47 Wildlife Trusts across the UK and one of 6 Welsh Wildlife Trusts.

We are a registered charity, dependent on the support of our members and donations.

If you would like to help support wildlife conservation by becoming a member or volunteer or would like more information about this and other local nature reserves, please contact us.

**North Wales Wildlife Trust**
**376 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1YE**
**Telephone: 01248 351541**
**email: nwwt@wildlifetrustswales.org**
Registered Charity No. 230772
Company No. 773995

**Mae Cemlyn yn stad weithredol felly arhoswch ar y llwybrau troed os gwelwch yn dda a chadwch eich cŵn ar dennyn.**
**Cemlyn is a working estate so please stay on the footpaths and keep your dog on a lead.**

**Peidiwch â pharcio eich car yn y gro mân os gwelwch yn dda, oherwydd fe allwch gael trafferth ei symud oddi yno. Mewn tywydd stormus, parciwch yn ddigon pell oddi wrth y blaendraeth oherwydd fe all y tonnau fod yn cario cerrig.**

**P** **Please do not park your car in shingle, as it may become stuck. In stormy weather park away from the foreshore, as the waves may be carrying stones.**

Llun cefndir gan Lin Cummins. Y lluniau eraill i gyd gan Ben Stammers oni bai y nodir yn wahanol.
Cynhyrchwyd gan **antenna creative 07772 629063**

Background photo by Lin Cummins. All other photos by Ben Stammers, unless otherwise indicated.
Produced by **antenna creative 07772 629063**